OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 3014 (Cy.286) (C.97)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Deddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002

Wedi'i wneud - - 4 Rhagfyr 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(1)(**1**) o Ddeddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002(**2**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002.

Darpariaethau s'yn dod i rym mewn perthynas â Chymru

2. Y dyddiad a benwyd i adran 1 o Ddeddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002 ddod i rym mewn perthynas â Chymru yw 1 Ebrill 2003.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

D. Elis-Thomas
4 Rhagfyr 2002 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) *Gweler* adran 3(2) i weld ystyr "the appropriate Minister".
(**2**) 2002 p.4.
(**3**) 1998 p.38.